Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon 2017

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Pecyn Athrawon

Cynnwys **Tud**

Cefndir y Dystysgrif	2
Crynodeb o'r Dystysgrif	3
Trefniadau a Thaliadau	4
Manylion Cyswllt	4
Amserlen	5
Manylion Asesu	6
Cyflwyno Marciau	6
Y Broses Gymedroli	7
Arholiad Ysgrifenedig	7

Atodiadau

Rhestr o'r ffurflenni:

Atodiad A	Adhawlio Costau
Atodiad B	Meini prawf a ffurflen adborth
Atodiad C	Ffurflen cofnodi cymorth (dewisol)

Cynnwys yr hyfforddiant

Bydd pob canolfan yn cynnal sesiynau hyfforddiant ar gyfer paratoi Mentoriaid Ysgol i asesu ail elfen y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon (y Dystysgrif), sef asesiad o addysgu ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bydd yr hyfforddiant ym mhob canolfan yn cynnwys:

- Cefndir y Dystysgrif
- Crynodeb o'r Dystysgrif (fel y nodir yn y fanyleb)
- Manylion cyswllt y cynllun
- Dyddiadau ac amserlen
- Canllawiau ymarferol gan gynnwys y drefn gymedroli
- Meini prawf asesu a'r safonau
- Cyflwyniad i'r ffurflenni amrywiol a'r amserlen sydd ynghlwm wrth gyflwyno'r gwaith papur.
- Dogfennau defnyddiol (hyrwyddo sgiliau llythrennedd disgyblion, disgrifiadau o wallau cyffredin hyfforddeion)
- Cyflwyniad i'r adnoddau er-lein newydd www.colegcymraeg.ac.uk/sgiliauiaithathrawon

Bydd cynnwys y pecyn hwn yn eich cynorthwyo chi fel Mentor Ysgol y myfyriwr i gwblhau asesiad ail ran y Dystysgrif, sef yr asesiad o'u gallu i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cefndir y Dystysgrif

Cynlluniwyd y dystysgrif hon er mwyn cydnabod sgiliau iaith myfyrwyr sy'n ymgymryd â Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) mewn prifysgolion yng Nghymru.

Yr amcanion yw :

i. darparu tystiolaeth (a gydnabyddir gan y sector addysg uwch a chan ysgolion uwchradd a chynradd) o lefel sgiliau iaith athrawon a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg;

ii. cymell myfyrwyr HCA i ddatblygu eu sgiliau iaith ysgrifenedig/llafar yn y Gymraeg ym maes addysg uwch a thu hwnt;

iii. cynorthwyo myfyrwyr HCA i sylweddoli gwerth y sgiliau hyn yn addysgol ac mewn gweithle cyfrwng Cymraeg/dwyieithog;

iv. codi hyder myfyrwyr HCA yn eu sgiliau iaith bersonol ynghyd â'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a defnyddio'r iaith mewn cyd-destun addysgol (cynradd a/neu uwchradd).

Crynodeb o gynnwys y Dystysgrif:

Prif nod y dystysgrif hon yw cydnabod lefel sgiliau ieithyddol (llafar ac ysgrifenedig) myfyrwyr HCA a dangos eu gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hyderus ac yn broffesiynol yng nghyd-destun dysgu ac addysgu.

Bydd dwy ran i'r dystysgrif ac i fod yn deilwng o'r dystysgrif, **mae'n rhaid pasio'r ddwy ran**. Bydd y dystysgrif yn cynnwys:

Rhan 1. **Arholiad ysgrifenedig** a fydd yn asesu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig y myfyriwr. Bydd yr arholiad ysgrifenedig yn cyfrif 40% tuag at y marc terfynol. (Bydd disgwyl i'r myfyriwr gael ei ryddhau am hanner diwrnod ar gyfer sefyll yr Arholiad Ysgrifenedig).

Rhan 2. **Asesiad Ymarferol** – asesiad o allu'r myfyriwr i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cyfrif 60% tuag at y marc terfynol. Bydd dwy ran i'r asesiad o addysgu ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg:

i. Safon llythrennedd personol (gwerth 30%), ac
ii. Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr (gwerth 30%).

Dyfernir y dystysgrif ar raddfeydd gwahanol i adlewyrchu cyrhaeddiad y myfyrwyr:

- Marc terfynol yn 70 neu'n uwch
- Marc terfynol rhwng 60–69
- Marc terfynol rhwng 50–59
- Marc terfynol yn is na 50.

Canllaw ar gyfer Sesiwn Hyfforddi Mentoriaid Cynradd ar gyfer y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon

Disgwylir i bob Mentor Cynradd a fydd yn asesu myfyrwyr yn ystod eu profiad addysgu proffesiynol olaf ar gyfer asesiad ymarferol y Dystysgrif Cymhwysedd Athrawon fynd i sesiwn hyfforddiant safoni.

Hanner diwrnod fydd hyd y sesiwn hyfforddi (tua dwy awr).

Arweinir y sesiwn gan Brif Gydlynwyr Cynradd y canolfannau. Mae'n bosibl y bydd cynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn bresennol drwy gyfrwng y rhwydwaith fideo.

Bwriad y sesiwn hyfforddi yw cyflwyno cefndir y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon, cyflwyno llyfrynnau perthnasol, trafod ac esbonio'r meini prawf ynghyd â thrafod ac esbonio'r goblygiadau i'r Mentor Cynradd.

Trefniadau a thaliadau

Disgwylir i Fentoriaid Cynradd dderbyn sesiwn hyfforddiant cyn derbyn myfyrwyr y byddant yn eu hasesu yn ystod eu profiad addysgu proffesiynol olaf.

Telir ffi cyflenwi i ryddhau mentoriaid i fynd i sesiwn hyfforddiant. Telir lwfans milltiroedd o 40c y filltir i'r Mentoriaid Cynradd. Bydd angen llenwi ffurflen adhawlio costau (Atodiad A) a'i dychwelyd i Brif Gydlynydd y Ganolfan (awgrymwn eich bod yn llenwi ac yn dychwelyd y ffurflen hon ar ddiwrnod yr hyfforddiant).

Bydd angen i bob Mentor Cynradd sy'n bresennol lofnodi ffurflen fel prawf o bresenoldeb yn yr hyfforddiant. Cyfrifoldeb y ganolfan fydd casglu'r llofnodion.

Telir ffi cyflenwi a chostau teithio'n uniongyrchol i'r ysgolion gan y ganolfan am ryddhau Mentoriaid Cynradd. Bydd disgwyl i athrawon adhawlio costau teithio oddi wrth eu hysgolion. Cyfrifoldeb y brifysgol berthnasol oddi mewn i'r canolfannau (o dan arweiniad Prif Gydlynydd Cynradd y ganolfan) yw casglu manylion banc perthnasol yr ysgolion er mwyn i'r brifysgol naill ai drosglwyddo taliad electronig neu anfon siec. Dylai pob mentor ysgol ddarparu manylion banc yr ysgol i'r ganolfan (Ffurflen Atodiad A).

Os nad oes modd i Fentor fynychu sesiwn hyfforddiant, dylid sicrhau bod trefniadau eraill yn eu lle. Dylid naill ai drefnu sesiwn hyfforddi arall gyda grŵp yn y brifysgol, trefnu cyfarfod arbennig gydag unigolyn/ion yn ei ysgol, neu drefnu cyfarfod ffôn neu gyfarfod fideo.

Manylion Cyswllt

Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Gwennan Schiavone (Rheolydd Cenedlaethol) g.schiavone@colegcymraeg.ac.uk Catrin Williams a Joanna Evans (Cydlynwyr) c.williams@colegcymraeg.ac.uk j.evans@colegcymraeg.ac.uk
Prif Arholwr	Elin Meek
Ymgynghorydd Allanol	Gwyn Lewis
Cymedrolydd Cynradd	Marian Thomas
Cydlynwyr y Canolfannau (Cynradd)	**Gogledd a Chanolbarth** Gwawr Maelor Williams g.m.williams@bangor.ac.uk **De-orllewin** Linda Davies l.davies@uwtsd.ac.uk **De-ddwyrain** Sioned Dafydd s.dafydd@cardiffmet.ac.uk

Amserlen

	Ysgolion Canolfan Gogledd a Chanolbarth	Ysgolion Canolfan De-orllewin	Ysgolion Canolfan De-ddwyrain
Hyfforddiant Mentoriaid			
	Telir ffi benodol ar gyfer rhyddhau athrawon am hanner diwrnod ar gyfer yr uchod.		
Amserlen gymedroli	8,9,10,11 Mai	18,19,20,21,22 Mehefin 2018	14,15,16 Mai 2018
Mentoriaid ysgol i gyflwyno marciau terfynol a ffurflenni adborth i'r ganolfan	3 Mai 2018	5 Mehefin 2018	10 Mai 2018
Canolfannau i gyflwyno ffurflenni adborth a marciau terfynol i'r Coleg	4 Mai 2018	6 Mehefin 2018	11 Mai 2018
Arholiad ysgrifenedig	27 Ebrill 2018		

Cyfnod asesu 2017/18

Bydd disgwyl i fentoriaid cynradd asesu gallu'r myfyriwr i addysgu'n ymarferol drwy gyfrwng y Gymraeg. Disgwylir i fentoriaid cynradd bennu 2 farc allan o 100 ar gyfer y ddwy elfen a asesir.

i. Safon llythrennedd personol (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r cyfanswm terfynol)
ii. Y gallu i gymhwyso a datblygu llythrennedd dysgwyr (marc allan o 100 a gwerth 30% o'r cyfanswm terfynol).

Bydd disgwyl i fentoriaid cynradd ddarparu marciau o lefel sgiliau ieithyddol y myfyriwr yn ystod y profiad addysgu proffesiynol olaf a chyflwyno'r marc hwnnw i Brif Gydlynydd y ganolfan berthnasol erbyn y dyddiad sydd wedi ei nodi yn yr amserlen (tud 5). Bydd y marciau hyn yn cael eu trosglwyddo gan y ganolfan i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cyflwyno marciau

Dylid arsylwi cyfres o wersi er mwyn dod i farn am y marciau. Ar sail hyn byddwch yn defnyddio'r meini prawf (Atodiad B) er mwyn pennu marc yr un ar gyfer y ddwy ran. Fe ddylid edrych ar dystiolaeth bellach, sef ffeil a baratoir gan y myfyriwr. Bydd y ffeil hon yn cynnwys cynlluniau gwersi ac adnoddau enghreifftiol, amrywiol a baratowyd yn y Gymraeg gan y myfyriwr er mwyn cael darlun llawn o'r safonau llythrennedd ysgrifenedig. Mae'r adnoddau addysgol hyn yn dystiolaeth bwysig ar gyfer safonau datblygu llythrennedd y dysgwyr. Dylai'r ffeil hefyd gynnwys tystiolaeth o asesu gwaith dysgwyr. Awgrymir y dylid rhoi adborth i'r myfyriwr gan osod targedau a chytuno arnynt lle y bo angen. **Gellid** dweud wrth y myfyriwr beth yw'r **marc amodol** ar gyfer yr asesiadau hyn ond dylid egluro nad yw'n derfynol nes i'r Bwrdd Arholi ystyried unrhyw argymhellion yn dilyn y broses cymedroli.

Rôl y Mentor Ysgol

Awgrymir / Disgwylir bod Mentor Ysgol yn cyflawni'r canlynol:

- Darllen adroddiad crynodol y Profiad Addysgu Proffesiynol cyntaf gan amlygu'r targedau yn ymwneud â sgiliau iaith personol y myfyriwr a'i allu i ddatblygu sgiliau llythrennedd disgyblion;
- Archwilio ffeil y myfyriwr yn wythnosol/rheolaidd gan amlygu gwallau iaith a'u trafod a'u hegluro;
- Gwirio'r adnoddau a baratoir ar gyfer disgyblion;
- Os oes gwallau esgeulus yng ngwaith y myfyriwr (y gwaith cynllunio a'r adnoddau), dylid annog golygu gofalus gan osod disgwyliadau uchel;

- Ar ddechrau'r profiad yn enwedig, darparu cymorth ac arweiniad iddo/iddi oddi wrth gynllunio i hyrwyddo bwydo a chyfoethogi iaith disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- Wrth roi adborth yn dilyn arsylwad, nodi gwallau mynegiant ar lafar a chynnig arweiniad ar osgoi defnydd o eiriau megis '*so*' ac '*ok*';
- Hefyd, nodi unrhyw gyfleoedd a gollwyd i gywiro ymatebion disgyblion;
- Rhoi sylwadau ar ansawdd llythrennedd personol myfyriwr a'r graddau y mae'n datblygu sgiliau llythrennedd disgyblion mewn asesiadau ffurfiannol.

Y broses gymedroli

Bydd y Coleg yn pennu sampl gymedroli o 25% o'r holl fyfyrwyr. Bydd Marian Thomas (y Cymedrolydd Cynradd) yn cymedroli sampl o'r ysgolion cynradd; a bydd Dr Elin Meek (Prif Arholwr y Dystysgrif) yn arsylwi rhai o'r ymweliadau cymedroli. Disgwylir i aelod o staff o'r Brifysgol fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad cymedroli. Gweler amserlen y daith gymedroli ar dudalen 5. Bydd y ganolfan yn cysylltu â'r ysgol mewn da bryd os bydd eich myfyriwr yn rhan o'r cymedroli ac yn cadarnhau unrhyw fanylion ymarferol bryd hynny.

Bydd disgwyl i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth benodol ar gyfer ymweliad y cymedrolydd:

- Copi o gynllun gwers ac adnoddau'r wers a arsylwir
- Ffeil(iau) sy'n cynnwys enghreifftiau o gynlluniau gwersi'r profiad addysgu proffesiynol hwn ac enghreifftiau o adnoddau a baratowyd
- Tystiolaeth o asesu a marcio gwaith disgyblion
- Enghreifftiau o asesiadau ffurfiannol ac adolygiadau myfyriol y myfyrwyr

<u>Arholiad ysgrifenedig (er gwybodaeth yn unig)</u>

Bydd gofyn i'r ysgol ryddhau myfyrwyr am hyd at ddiwrnod er mwyn cwblhau'r arholiad ysgrifenedig. **Dyddiad yr arholiad cynradd fydd 27 Ebrill 2018.** Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am yr arholiad ysgrifenedig. Bydd yr arholiadau yn cael eu cynnal yn y Canolfannau Addysg i Athrawon ac felly bydd angen ystyried y bydd angen i rai myfyrwyr deithio ymhellach nag eraill er mwyn cyrraedd y ganolfan berthnasol. Bydd yr arholiad yn cael ei gynnal ar gyfrifiadur a bydd myfyrwyr yn medru defnyddio Cysgliad a gwirydd Word i gwblhau'r papur.

Cynnwys y papur arholiad:

i **Tasg golygu/cywiro (20%)**

Tasg sy'n seiliedig ar y disgwyliadau ar hyfforddeion yng nghyd-destun eu gwaith yn yr ysgol.

ii. **Trawsieithu (40%)** e.e. trawsieithu darn o ddeunydd ffeithiol perthnasol i fyd addysg.

iii. **Tasg 'ysgrifennu rhydd' (40%)**

Darn cyffredinol a fydd yn ymateb i sbardun llunio naratif, e.e. gohebiaeth at rieni neu ymateb i sefyllfa benodol neu drafod pwnc perthnasol i fyd addysg.

Bydd yr arholiad ysgrifenedig yn cyfrif **40%** at y marc terfynol.

Deunydd atodol

Atodiad C

Yn gynwysedig yn y pecyn hwn, ceir ffurflen i gofnodi'r lefel o adborth a roesoch i'r myfyriwr yn ystod y profiad addysgu proffesiynol (Atodiad C). Nid oes disgwyl i chi gyflwyno'r ffurflen hon yn swyddogol ond gellir ei defnyddio fel man cychwyn trafodaeth yn ystod ymweliad y tiwtor â'r ysgol. Bydd ystyried y lefel o gefnogaeth ac arweiniad yr ydych wedi gorfod ei rhoi i'r myfyriwr (ai peidio) yn medru eich cynorthwyo wrth ddyfarnu'r marciau terfynol.

ATODIAD A

Ffurflen Adhawlio Costau Teithio

Dylai'r ffurflen hon gael ei llenwi gan Fentoriaid Ysgol sy'n mynychu Hyfforddiant TCA. Bydd angen i Gydlynydd y Ganolfan ei llofnodi i'w awdurdodi. Bydd y Ganolfan yn prosesu taliad i bob ysgol (a fydd yn cynnwys y ffi cyflenwi a'r costau teithio).

I'w gwblhau gan y Mentor Ysgol:

	Manylion y daith (pellter)	**Cyfanswm i'w hawlio**
Costau Teithio (40c y filltir)		**£**

*Rwyf yn ardystio fy mod wedi gwario'r union dreuliau angenrheidiol uchod a bod y symiau a hawlir yn unol â chyfraddau cyfredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Rwyf yn cadarnhau bod y manylion yn gywir, a bod yr ysgol yn hapus i gael ei thalu drwy BACS **(bydd disgwyl i'r athrawon adhawlio'r costau teithio gan yr ysgol)**.

Enw'r Athro: **Enw'r Ysgol:**	**Cyfeiriad yr ysgol:**
Llofnod:	**Dyddiad:**

Taliad BACS								
Rhif y Cyfrif (yr ysgol)								
Cod Didoli								

Enw'r Cyfrif	
Enw'r Banc	
Cyfeiriad y Banc	
Cod Post	

Dylid dychwelyd y ffurflen at gydlynydd y Dystysgrif yn y ganolfan berthnasol.

Awdurdodwyd gan (Cydlynydd y Ganolfan):

Llofnod: Dyddiad:

Atodiad C

Ffurflen i alluogi Mentor i hysbysu Tiwtor Coleg am gymhwysedd iaith myfyriwr

Ar gais y Canolfannau, mae'r Prif Gymedrolydd Cynradd wedi paratoi ffurflen ar gyfer mentoriaid ysgol. Adnodd i alluogi Mentor i hysbysu Tiwtor Coleg am gymhwysedd iaith myfyriwr yw hwn.

Disgwylir i Fentor ysgol gwblhau'r daflen isod fel man cychwyn trafodaeth â'r Tiwtor am gymhwysedd iaith myfyriwr erbyn yr arsylwad olaf terfynol.

I ba raddau bu'n rhaid i chi fel mentor ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i'r myfyriwr o ran yr agweddau canlynol:

AGWEDD	Byth	Anaml	Yn gyson	Bob tro
Cywiro gwaith ysgrifenedig				
Adnoddau yn cynnwys taflenni gwaith, pwyntiau pwer a gyflwynir i blant a.y.b.				
Gwaith ar fwrdd gwyn				
Sylwadau wrth farcio gwaith plant				
Cynlluniau gwersi/gwerthusiadau ac ati o fewn y Ffeil Cynllunio Gwersi.				
Cywiro iaith lafar				
Cywair –ti/chi				
Gorchmynion				
Cwestiynu ac ymateb i gwestiynau				
Ynganiad				
Geirfa /termau allweddol				
Cystrawennau / berfau				
Treigladau				
Agweddau ar ramadeg (Disgwyliadau Ff.Llythrennedd-Ysgrifennu ar ddysgwyr)				
Sillafu				
Treiglo				
Cystrawen				
Berfau				
Cyfoethogi iaith plant				
Cywiro ymatebion disgyblion				
Gwahaniaethu'n ieithyddol				
Bwydo iaith ar draws y cwricwlwm				

Ffurflen Adborth a Grid Asesu Addysgu Ymarferol Trwy Gyfrwng y Gymraeg

Enw'r Myfyriwr: **Ysgol:**

Nodwch marc cyfanswm ***Asesiad Rhan 1*** yn y rhes berthnasol isod.

Marc 85+	Dangosir **lefel hynod o uchel** o sgiliau llythrennedd personol gweithredol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.	
Marc rhwng 70-84	Dangosir **lefel uchel** o sgiliau llythrennedd personol gweithredol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.	
Marc rhwng 60-69	Dangosir sgiliau llythrennedd personol gweithredol **da** sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.	
Marc rhwng 50-59	Dangosir sgiliau llythrennedd personol gweithredol **boddhaol** sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.	
Marc llai na 50	**Ni roddir sylw digonol** i sgiliau llythrennedd personol gweithredol personol gweithredol sy'n gymwys i'r cyd-destun addysgol.	
Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw sylwadau pellach		

Nodwch marc cyfanswm ***Asesiad Rhan 2*** yn y rhes berthnasol isod.

Marc 85+	Manteisir i'r eithaf ar wybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr er mwyn cymell ac ysbrydoli dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd eu hunain.	
Marc rhwng 70-84	Manteisir ar wybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr er mwyn cymell dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd eu hunain.	
Marc rhwng 60-69	Defnyddir gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr.	
Marc rhwng 50-59	Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y myfyriwr yn ddigon cadarn i gefnogi sgiliau llythrennedd y dysgwyr.	
Marc llai na 50	Mae diffyg sgiliau llythrennedd personol y myfyriwr yn cael effaith andwyol ar ddatblygiad sgiliau llythrennedd y dysgwyr.	
Defnyddiwch y blwch isod i nodi unrhyw sylwadau pellach		

Llofnod yr asesydd _____ Dyddiad: _____

Meini Prawf

Rhan 1: Safon Llythrennedd Personol Myfyrwyr		
Adnoddau Iaith (20 marc)		
Adnoddau iaith personol **hynod o gyfoethog ac ymestynnol** ar lafar ac yn ysgrifenedig. (*Rhagorol iawn)*	17-20	
Adnoddau iaith personol **cyfoethog ac ymestynnol** ar lafar ac yn ysgrifenedig. (*Rhagorol*)	14-16	
Adnoddau iaith personol **da** ar lafar ac yn ysgrifenedig. (*Da*)	12-13	
Adnoddau iaith personol **boddhaol** ar lafar ac yn ysgrifenedig. (*Digonol*)	10-11	
Adnoddau iaith personol **cyfyngedig** ar lafar ac yn ysgrifenedig. (*Anfoddhaol*)	6-9	
Adnoddau iaith personol **cwbl anfoddhaol** ar lafar ac yn ysgrifenedig.	0-5	
Geirfa a Sillafu (20 marc)		
Gafael **hynod o gadarn a chywir** ar eirfa, termau a sillafu geiriau cyffredin aml-ddefnydd.	17-20	
Gafael **gadarn a chywir** ar eirfa, termau a sillafu geiriau cyffredin aml-ddefnydd.	14-16	
Gafael **dda a chywir** ar eirfa, termau a sillafu geiriau cyffredin aml-ddefnydd.	12-13	
Gafael **foddhaol a lled-gywi**r ar eirfa, termau a sillafu geiriau cyffredin aml-ddefnydd.	10-11	
Gafael **gyfyngedig** ar eirfa a thermau a gwneir llithriadau amlwg wrth sillafu geiriau cyffredin aml-ddefnydd.	6-9	
Diffyg gafael ar eirfa a thermau, a chaiff geiriau cyffredin aml-ddefnydd eu camsillafu'n gyson.	0-5	
Treigladau (20 marc)		
Gafael **hynod o gadarn a chywir** ar dreigladau.	17-20	
Gafael **gadarn a chywir** ar dreigladau.	14-16	
Gafael **dda** ar dreigladau.	12-13	
Gafael **ddigonol-foddhaol** ar dreigladau.	10-11	
Gafael **gyfyngedig** ar dreigladau.	6-9	
Diffyg gafael ar dreigladau.	0-5	
Gramadeg cyffredinol (*atalnodi, brawddegu, paragraffu, defnyddio berfau* ayyb) (20 marc)		
Gafael **hynod o gadarn a chywir** ar atalnodi, brawddegu, paragraffu a defnyddio berfau.	17-20	
Gafael **gadarn a chywir** ar atalnodi, brawddegu, paragraffu a defnyddio berfau.	14-16	
Gafael **dda** ar atalnodi, brawddegu, paragraffu a defnyddio berfau.	12-13	
Gafael **ddigonol-foddhaol** ar atalnodi, brawddegu, paragraffu a defnyddio berfau.	10-11	
Gafael **gyfyngedig** ar atalnodi, brawddegu, paragraffu a defnyddio berfau.	6-9	
Diffyg gafael ar atalnodi, brawddegu, paragraffu a defnyddio berfau.	0-5	
Dull Cyflwyno *(cywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, ynganu'n glir a chywir a chyflymder y cyflwyno)* (20 marc)		
Defnydd o gywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, yr ynganu a chyflymder y cyflwyno'n **rhagorol iawn**.	17-20	
Defnydd o gywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, yr ynganu a chyflymder y cyflwyno'n **rhagorol**.	14-16	
Defnydd o gywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, yr ynganu a chyflymder y cyflwyno'n **dda**.	12-13	
Defnydd o gywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, yr ynganu a chyflymder y cyflwyno'n **ddigonol**.	10-11	
Defnydd o gywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, yr ynganu a chyflymder y cyflwyno'n **anfoddhaol.**	6-9	
Diffyg ymwybyddiaeth o ran defnydd o gywair priodol, amrywio tôn y llais i bwrpas, llif y mynegiant, yr ynganu a chyflymder y cyflwyno.	0-5	
	Cyfanswm	

Rhan 2: Gallu'r Myfyriwr i Gymhwyso a Datblygu Sgiliau Llythrennedd Dysgwyr		
Dealltwriaeth wrth **gymhwyso ac adnabod cyfleoedd** i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd. (20 marc)		
Gafael a dealltwriaeth **hynod o gadarn** wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd.	17-20	
Gafael a dealltwriaeth **gadarn** wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd.	14-16	
Gafael a dealltwriaeth **dda** wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd.	12-13	
Gafael a dealltwriaeth **foddhaol** wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd.	10-11	
Gafael a dealltwriaeth **gyfyngedig** wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd.	6-9	
Diffyg gafael a dealltwriaeth wrth gymhwyso ac adnabod cyfleoedd i gefnogi a datblygu agweddau ar lafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu ar y lefel gywir yn drawsgwricwlaidd.	0-5	
Dealltwriaeth y myfyriwr wrth **ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifenedig** mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd. (20 marc)		
Dealltwriaeth **ragorol** a defnydd hyderus iawn wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifennu /darnau darllen mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.	17-20	
Dealltwriaeth **dda iawn** a defnydd hyderus wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifennu /darnau darllen mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.	14-16	
Dealltwriaeth **dda** wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifenedig mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.	12-13	
Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth **foddhaol** wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifenedig/darnau darllen mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.	10-11	
Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth **gyfyngedig** wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifenedig /darnau darllen mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.	6-9	
Diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth wrth ddewis, cyfansoddi a dadansoddi nodweddion cynnwys ac iaith ffurfiau ysgrifenedig /darnau darllen mewn cyd-destunau trawsgwricwlaidd.	0-5	
Ystyriaeth i waith **cynllunio ac addysgu** er mwyn datblygu sgiliau a chysyniadau llythrennedd y dysgwyr, gan wneud defnydd o **amrediad o arddulliau addysgu a dysgu**. (20 marc)		
Y sgiliau llythrennedd a gaffaelir/defnyddir gan y dysgwyr yn **hynod o uchel ar yr agenda cynllunio** ac addysgu, gan roi ystyriaeth fanwl i amrediad o arddulliau addysgu a dysgu.	17-20	
Y sgiliau llythrennedd a gaffaelir/defnyddir gan y dysgwyr yn **uchel ar yr agenda cynllunio** ac addysgu, gan roi ystyriaeth i amrediad o arddulliau addysgu a dysgu.	14-16	
Rhoddir **ystyriaeth ofalus** i waith cynllunio ac addysgu er mwyn datblygu'r sgiliau a'r cysyniadau llythrennedd a gaffaelir a/neu a ddefnyddir gan y dysgwyr, gan wneud defnydd o amrediad o arddulliau addysgu a dysgu.	12-13	
Y gwaith cynllunio ac addysgu'n galluogi dysgwyr i gaffael a/neu ddefnyddio sgiliau a chysyniadau llythrennedd sy'n **briodol** i'w cam datblygu, gydag **pheth ystyriaeth** i amrediad o arddulliau addysgu a dysgu.	10-11	
Sylw **annigonol** i ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr wrth gynllunio ac addysgu ac wrth ystyried amrediad o strategaethau addysgu a dysgu.	6-9	
Diffyg sylw i ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr wrth gynllunio ac addysgu ac wrth ystyried amrediad o strategaethau addysgu a dysgu.	0-5	

Rhan 2 (parhad): Gallu'r Myfyriwr i Gymhwyso a Datblygu Sgiliau Llythrennedd Dysgwyr		
Gallu i gyfleu disgwyliadau, a phennu **tasgau gwahaniaethol** i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Gallu i **ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr/disgybl**. (20 marc)		
Gallu **rhagorol iawn** i gyfleu disgwyliadau, gyda'r tasgau gwahaniaethol a bennir yn realistig, yn bwrpasol, yn wahaniaethol ac yn annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd. Manteisir ar gyfleoedd annisgwyl i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Yn gallu ymateb yn **rhagorol iawn** i gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion.	17-20	
Gallu **rhagorol** i gyfleu disgwyliadau, gyda'r tasgau gwahaniaethol a bennir yn realistig, yn bwrpasol, yn wahaniaethol ac yn annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd. Manteisir ar gyfleoedd annisgwyl i ddatblygu sgiliau llythrennedd. Yn gallu ymateb yn **rhagorol** i gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion.	14-16	
Gallu **da** i gyfleu disgwyliadau, gan bennu tasgau gwahaniaethol i ddatblygu sgiliau llythrennedd mewn ffordd bwrpasol a gwahaniaethol. Yn gallu ymateb yn **dda** i gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion.	12-13	
Gallu **boddhaol** i gyfleu disgwyliadau wrth bennu tasgau gwahaniaethol i ddatblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr mewn ffordd wahaniaethol. Yn gallu ymateb yn **foddhaol** I gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion.	10-11	
Gallu **anfoddhaol** i gyfleu disgwyliadau a phennu tasgau gwahaniaethol sy'n datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr mewn ffordd wahaniaethol. **Yn anfoddhaol** wrth ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion.	6-9	
Diffyg gallu i gyfleu disgwyliadau a phennu tasgau gwahaniaethol sy'n datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr mewn ffordd wahaniaethol. Diffyg gallu i ymateb i gamsyniadau'r dysgwyr/disgyblion.	0-5	
Defnydd o **strategaethau asesu ar gyfer dysgu** er mwyn llywio'r broses o ddatblygu sgiliau llythrennedd. (20 marc)		
Gwneir defnydd **hynod o effeithiol** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn llywio'r broses o ddatblygu llythrennedd ac mae cynllun y wers yn adeiladu'n gadarn ar asesiadau blaenorol o sgiliau llythrennedd dysgwyr.	17-20	
Gwneir defnydd **effeithiol** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn llywio'r broses o ddatblygu llythrennedd ac mae cynllun y wers yn adeiladu ar asesiadau blaenorol o sgiliau llythrennedd dysgwyr.	14-16	
Defnydd **da** o strategaethau asesu ar gyfer dysgu er mwyn llywio'r broses o ddatblygu sgiliau llythrennedd a chaiff cynllun y wers ei lywio gan asesiadau blaenorol o lythrennedd.	12-13	
Gallu **boddhaol** i nodi'r prif gryfderau a'r meysydd i'w datblygu o ran llythrennedd dysgwyr a defnyddio asesiadau er mwyn llywio gwaith cynllunio.	10-11	
Rhoddir ystyriaeth **anfoddhaol** i lythrennedd wrth asesu a monitro'r dysgu.	6-9	
Diffyg ystyriaeth i lythrennedd wrth asesu a monitro'r dysgu.	0-5	
	Cyfanswm	